



CYNGOR DINAS CAERDYDD – GWASANAETHAU ADDYSG A DYSGU GYDOL OES CAIS I GAEL LLE MEWN MEITHRINFA YSGOL GYMUNEDOL YN 2019/20

GAN MAI'R DYDDIAD CAU A GYHOEDDWDYD OEDD DYDD LLUN 1 GORFFENAF 2019, YSTYRIR Y CAIS HWN YN GAIS HWYR, A CHAIFF EI YSTYRIED AR ÔL Y ROWND GYNTAF O DDYRANNU LLEOEDD.

Rhaid defnyddio'r ffurflen hon i gael lle mewn **Meithrinfa Ysgol Gymunedol**.

PWYSIG: Ni chewch gynnig lle mewn meithrinfa i'ch plentyn os na chyflwynwch gais. Nodwch fod rhaid defnyddio ffurflen ar wahân ar gyfer pob plentyn.

Sicrhewch eich bod yn darllen yr holl wybodaeth sydd yn y **Llyfryn Gwybodaeth i Rieni** yn ofalus iawn. Mae'r llyfryn ar gael ar-lein yn www.caerdydd.gov.uk/derbyniysgolion.

Rhaid i'r holl geisiadau hwyr gael eu gwneud trwy'r ffurflen hon. **NID OES unrhyw gyfleuster ar-lein ar gael ar hyn o bryd.** Gallwch ddychwelyd y ffurflen hon i un o Hybiau'r Cyngor lle gall staff roi cymorth i chi gwblhau'r ffurflen neu i'w dychwelyd â llaw lle gallwch gael derbynneb.

CYN I CHI GWBLHAU'R FFURFLEN HON GWELER Y NODIADAU CANLLAW AR DUDALEN 3

ADRAN 1 – MANYLION Y PLENTYN

CYFENW'R PLENTYN: _____ DYDDIAD GENI: _____
 ENWAU CYNTAF: _____ RHIF FFÔN: _____
 CYFEIRIAD: _____
 CYFEIRIAD E-BOST: _____
 MEITHRINFA PRESENNOL: _____ (OND yn berthnasol os yw eich plentyn eisoes yn mynychu Meithrinfa Gymunedol)

Os yw eich plentyn yn symud o'r cyfeiriad uchod cyn iddo ddechrau yn yr ysgol newydd, nodwch:

DYDDIAD SYMUD: ___/___/___

CYFEIRIAD NEWYDD: _____

DS: Rhaid i'ch plentyn fyw yn barhaol yn y cyfeiriad newydd cyn ac yn cynnwys 1.7.19 er mwyn i'ch cais gael ei ystyried ar y sail eich bod yn byw yn y dalgylch yn y rownd gyntaf o ddyrannu lleoedd.

Cyfeiriad cartref y plentyn: Sef preswylfa eich plentyn. Mae hyn yn golygu lle mae'r plentyn yn byw ar adeg y cais. Caiff eich cais ei asesu ar y dystiolaeth o ran ble mae eich plentyn yn byw fel a nodwyd ar y dyddiad cau ar gyfer geisiadau. **Cynhelir gwiriadau cyfeiriad caeth.** Os na fydd y plentyn yn byw yn y cyfeiriad a nodir ar y cais cyn Medi 2019 caiff y cynnig am y lle ei dynnu'n ôl.

ADRAN 2 – DEWISIADAU O RAN YSGOL

NI ddylid nodi isod unrhyw ddewisiadau am Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr (Ffydd), neu Ysgolion Cynradd mewn Awdurdod Lleol arall. Rhaid i geisiadau gael eu gwneud yn uniongyrchol i'r ysgol neu'r Awdurdod Lleol.

Dewis Ysgol Feithrin Cymunedol

Nid oes rhaid i chi ailymgeisio os yw eich plentyn eisoes mewn dosbarth meithrin ysgol ac rydych chi eisiau i'ch plentyn barhau yno

Nid yw mynychu Dosbarth Meithrin yn cymhwyso plentyn i le mewn Dosbarth Derbyn yn yr un ysgol yn awtomatig

Mae dosbarth meithrin am 2.5 awr y diwrnod; 5 diwrnod yr wythnos a disgwyllir i'ch plentyn fod yn bresennol am yr wythnos gyfan

ADRAN 3 – SAIL Y CAIS
SICRHEWCH EICH BOD YN RHOI UNRHYW DDOGFENNAU YCHWANEGOL SY’N OFYNNOL
Ticiwch fel sy’n briodol

Mae hyn yn cynnwys tystiolaeth ategol sy’n cefnogi unrhyw un o’r meini prawf canlynol. **Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi’r wybodaeth hon**

• A YW’R DISGYBL YN DERBYN GOFAL/WEDI DERBYN GOFAL YN Y GORFFENNOL?

A yw’r plentyn yng ngofal awdurdod lleol? e.e. yn derbyn gofal neu’n cael ei faethu. A fu’r plentyn yng ngofal Awdurdod Lleol ac wedi ei fabwysiadu ers hynny (neu wedi dod yn destun gorchymyn preswylfa neu orchymyn gwarcheidwaeth arbennig ers bod yng ngofal yr awdurdod)?

Os ateboch ‘le’ i unrhyw un o’r uchod, nodwch fanylion y Gweithiwr Cymdeithasol neu’r Awdurdod Lleol yn y blwch isod.

• MAE GAN FY MHLENTYN DDATGANIAD STATUDOL O ANGEN ADDYSGOL NEU GYNLLUN ADDYSG, IECHYD A GOFAL.

**• MAE FY MHLENTYN YN EFAILL NEU DRIBLED ac ati.
• (UN O ENEDIGAETH LUOSOG?)**

• BYDD GAN FY MHLENTYN FRAWD NEU CHWAER HŶN YN MYNYCHU’R YSGOL YN YSTOD BLWYDDYN ACADEMAIDD 2019/20

Rhowch enwau a dyddiadau geni plant hŷn isod: Os nad ydych yn rhoi manylion am frodyr a chwiorydd hŷn a fydd yn yr ysgol ni chaiff eich cais ei ystyried am y rhesymau hynny. Nid oes modd rhoi’r wybodaeth hon o’r wybodaeth am y disgybl a gedwir gan y Cyngor.

ENW	DYDDIAD GENI	ENW	DYDDIAD GENI

• RWY’N DEWIS YR YSGOL HON AM RESYMAU MEDDYGOL NEU GYMDEITHASOL CYMHELLOL

I gael ei ystyried dan y meini prawf hwn, **rhaid** cyflwyno argymhellion ysgrifenedig gan feddyg ymgynghorol, gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol tebyg sy’n nodi rhesymau manwl dros dderbyn y plentyn i feithrinfa ysgol benodol. Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi’r wybodaeth hon gyda’r cais hwn ac erbyn y dyddiad cau. Ni chaiff tystiolaeth a ddarperir ar ôl y dyddiad cau ei hystyried hyd nes y cwblheir y rownd cyntaf o ddyrannu lleoedd.

• PELLTER YR YSGOL O GYFEIRIAD Y CARTREF

(Efallai y bydd yn rhaid i chi gyflwyno cyfriflen y Dreth Gyngor/ bil cyfleustodau diweddar/tystiolaeth arall o’ch cyfeiriad fel y bo angen).

• RHESYMAU ERAILL

Os hoffech wneud sylwadau ychwanegol i gefnogi eich cais rhowch y wybodaeth yn y blwch isod neu ei hatodi i’r ffurflen dewis hon.

• OS YDYCH WEDI GWNEUD TREFNIADAU ERAILL AR GYFER ADDYSG GYNRADD EICH PLENTYN (e.e. ysgolion annibynnol, ysgolion o fewn awdurdodau lleol eraill ac ati) NODWCH Y MANYLION ISOD

ADRAN 4 – MANYLION Y PERSON SY’N CWBLHAU’R FFURFLEN HON

CYFENW	ENW(AU) CYNTAF	CYFEIRIAD

OES GENNYCH CHI GYFRIFOLDEB RHIANT DROS Y PLENTYN HWN?

 OES NAC OES

Os nac oes, beth yw eichch perthynas â'r plentyn? Rhwch fanylion isod.

Rwyf yn ardystio bod y wybodaeth uchod yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth. Rwy'n deall y gall darparu unrhyw wybodaeth ffug neu gamarweiniol ar y ffurflen hon a/neu ddogfennau ategol wneud y cais hwn yn annilys, a gallai arwain at ganslo'r cynnig o le meithrinfa i fy mhlehtyn.

Rwy'n deall y caiff unrhyw wybodaeth bersonol rwy'n ei darparu amdanaf i neu fy mhlehtyn ei phrosesu, ei rhannu a'i chadw yn unol â deddfwriaeth Diogelu Data er mwyn cyflawni tasg gyhoeddus. I gael rhagor o wybodaeth am ofynion diogelu data'r Cyngor cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data, Ystafell 357, Neuadd y Sir, CF10 4UW, e-bost: diogeludata@caerdydd.gov.uk. Ceir gwybodaeth am sut mae Cyngor Caerdydd yn rheoli gwybodaeth bersonol yn ein Polisi Preifatrwydd llawn ar wefan y Cyngor <https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Hafan/Ymwadiad/Pages/default.aspx>

Rwyf/nid wyf yn rhoi caniatâd i swyddogion Addysg a Dysgu Gydol Oes gyrchu data sydd gan Adran Treth Gyngor y Cyngor, y Gofrestr Etholiadol a sefydliadau allanol gan gynnwys asiantaethau gwirio credyd er mwyn dilysu bod y wybodaeth a roddir gennyf yn y cais hwn yn gywir. Rwy'n deall bod posibilrwydd y bydd angen tystiolaeth bellach. Bydd angen hyn mewn sefyllfaoedd lle mae mwy o geisiadau wedi eu derbyn ar gyfer ysgol na nifer y lleoedd sydd ar gael, er mwyn i'r ceisiadau gael eu hystyried yn unol â meini prawf yr ysgol pan fo mwy o geisiadau na lleoedd.

DS: Os nad ydych yn fodlon rhoi caniatâd a'ch bod yn gwneud cais i ysgol lawn, bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r wybodaeth sydd yn eich cais.

LLOFNOD: _____ DYDDIAD: _____

I gael gwybodaeth ynghylch y dystiolaeth efallai y bydd angen i chi ei darparu, gweler y Llawlyfr i Rieni ar wefan y Cyngor www.caerdydd.gov.uk/derbyniysgolion

NODIADAU CANLLAW
CYN DYCHWELYD Y FFURFLEN HON SICRHEWCH EICH BOD WEDI GWNEUD Y CANLYNOL:

- Ymgynghori ag unrhyw bobl sydd â chyfrifoldeb rhianta dros y plentyn hwn.
- Darllen yr holl wybodaeth yn y llyfryn “**Gwybodaeth i Rieni**” yn ofalus sydd ar gael ar ein gwefan www.caerdydd.gov.uk/derbyniysgolion
- Darllen y meini prawf derbyn i ysgolion
- Rhoi unrhyw dystiolaeth gefnogol sy'n ofynnol i asesu eich cais. Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi'r wybodaeth hon gyda'ch cais.

CEISIADAU HWYR

Caiff ffurflenni dewis a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau eu hystyried fel ceisiadau hwyr a dim ond ar ôl i'r holl geisiadau a dderbynnir erbyn y dyddiad cau gael cynnig eu lle am le ysgol y caiff y ceisiadau hwyr eu hystyried. Caiff ceisiadau o rownd gyntaf y broses o ddyrannu lleoedd ac unrhyw geisiadau hwyr dilynol eu hystyried gyda'i gilydd ar gyfer unrhyw leoedd dilynol a allai godi.

NI FYDD Y CYNGOR YN GYFRIFOL AM FFURFLENNI SY’N MYND AR GOLL YN Y POST NA RHAI SY’N CAEL EU DYCHWELYD AM NA THALWYD DIGON O ARIAN I’W POSTIO. OS BYDDWCH YN DEFNYDDIO’R POST BRENHINOL EFALLAI YR HOFFECH DDEFNYDDIO’R GWASANAETH DOSBARTHAD ARBENNIG I GAEL DERBYNNEB

NI DDYLECH DDYCHWELYD EICH FFURFLEN I NEUADD Y SIR GAN NAD OES DARPARIAETH YNO I DDERBYN FFURFLENNI CAIS, RHOI DERBYNEBAU NAC ATEB YMHOLIADAU